# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Medi 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.45)

**2 Covid-19:Adferiad - Sefydliadau sy'n cynrychioli busnes**

(09.45-10.45) (Tudalennau 1 - 21)

Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Phennaeth Polisi, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru

Amy Bainton, Cynghorydd Materion Allanol, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-17-20 - Papur 1: Tystiolaeth gan FSB

EIS(5)-17-20- Papur 2: Papur Briffio

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Egwyl (10.45-10.55)**

## 3 Covid-19: Adferiad - Undebau Llafur

(10.55-11.55)

Peter Hughes, Ysgrifennydd Rhanbarthol, UNITE Cymru

Mike Payne, Uwch Drefnwr, Cymru a De Orllewin, Undeb GMB

Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro, Cyngres yr Undebau Llafur Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 5 Preifat

(11.55-12.15)

COVID-19: Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

# AILAGOR CYMRU

Mai 2020

@FSB_Wales

**fsb.wales**



Experts in Business
Arbenigwyr mewn Busnes

# CYFLWYNIAD




Mae'r pandemig Coronafeirws wedi herio pob rhan o gymdeithas; o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rheng flaen yr argyfwng iechyd, busnesau'n cau eu drysau i helpu i atal lledaeniad y clefyd, i ni i gyd fel unigolion yn aros gartref i helpu i ddiogelu'r GIG. Mae ein holl ffordd o fyw wedi'i newid yn ddramatig.

Dechreuodd Cymru ar gyfyngiadau symud ar 16eg Mawrth. Diolch i hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn wedi cael effaith ar ledaeniad y feirws ac wedi helpu'r GIG i ddiogelu bywydau. Bydd meddyliau'n dechrau troi at sut fyddwn yn ymadael â'r cyfyngiadau symud ac yn dechrau symud yn araf tuag at ailgychwyn agweddau ar ein ffordd flaenorol o fyw neu o leiaf symud at 'normal newydd'. Rhaid i'r flaenoriaeth gyntaf yn y cyswllt hwn fod i ddiogelu iechyd a lles pobl Cymru.

Er bod y symudiad tuag at gyfyngiadau symud yn anhygoel o gyflym, rydym yn disgwyl i'r mesurau gael eu llacio'n araf dros gyfnod llawer hirach o amser. Bydd hyn yn galw am gryn lawer o feddwl, yn arbennig ar ran busnesau a'r llywodraeth ynghylch sut i ailgychwyn gweithgareddau yn ddiogel mewn modd sydd nid yn unig yn diogelu iechyd y cyhoedd ond hefyd yn meithrin ymddiriedaeth, hyder a sicrwydd ar ran unigolion a busnesau. Yn y ddogfen hon rydym yn gwneud rhywfaint o awgrymiadau ynghylch sut i helpu busnesau i wneud y trawsnewid hwn yn ddiogel, a sut y gallwn gefnogi busnesau i ailagor Cymru.

# BUSNESAU'N CEFNOGI EU CYMUNEDAU

Gan fod ein gallu i fynd ynglŷn â'n bywydau arferol wedi newid yn enfawr, mae pwysau newydd wedi'u teimlo ar draws cymdeithas sifil, gyda'r rhai mwyaf taer ar y GIG a gweithwyr rheng flaen i'w cymunedau.

Ar yr un pryd, mae busnesau wedi cael eu hunain yn methu parhau gyda 'busnes fel arfer' mewn nifer dirifedi o ffyrdd. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, mae llawer o gwmnïau wedi addasu eu ffordd arferol o wneud busnes i roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau a chefnogi gweithwyr a sefydliadau allweddol ar adeg mor anodd a phwysig.

Tra bo enghreifftiau di-rif o gwmnïau Cymreig sy'n dod o hyd i ffyrdd arloesol i wasanaethu eu cymunedau, rydym wedi cynnwys tair enghraifft o sut y mae busnesau'n addasu er mwyn rhoi yn ôl. Mae hyn yn amlygu'r graddau y mae cwmnïau Cymreig wedi ymblethu mor gynhenid yn eu cymunedau a sut y mae eu gwydnwch yn cefnogi ein cymdeithas i ddal i weithredu trwy ddigwyddiadau na fu eu tebyg o'r blaen.



**Mae llawer o gwmnïau wedi addasu eu ffordd arferol o wneud busnes i roi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau a chefnogi gweithwyr a sefydliadau allweddol ar adeg mor anodd a phwysig**

**Barry Kirby, K Sharp**

Mae'r cwmni Ymchwil Gwyddorau Dynol o Lanelli, K Sharp wedi addasu ei fodel busnes fel arfer yn llwyr i gefnogi gweithwyr GIG rheng flaen ar hyn o bryd.

Pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud, symudodd Barry, y Rheolwr-Gyfarwyddwr, ei beiriannau argraffu 3D o'i swyddfa i'w ystafell fyw, ac mae wedi ymuno ag Amman Valley Makerspace yn eu menter "Fferm Brintio 3D Rheng Flaen" sy'n printio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) hanfodol i'r GIG.

Mae hyn yn newid cyfeiriad llwyr i'r busnes sy'n gweithio fel arfer gyda phersonél milwrol rheng flaen, ond roedd yn bwysig i'r tîm y tu ôl i K Sharp deimlo fel petaent yn cyfrannu at yr ymdrechion i gefnogi'r GIG a bod yn rhagweithiol yn erbyn Covid-19 yn ogystal â pharhau i ddarparu ar gyfer ei gwsmeriaid ym myd amddiffyn.

**Jo Ashburner, Red Dragon Flagmakers**

Busnes micro-weithgynhyrchu yng Nghlydach, Abertawe yw Red Dragon Flagmakers sy'n dylunio, gweithgynhyrchu ac allforio baneri ar gyfer cwsmeriaid o amgylch y byd.

Megis gyda llawer o fusnesau Cymreig mae'r achosion o'r pandemig Covid-19 wedi dod â newid sylweddol. Er eu bod yn dal i gynhyrchu baneri ar raddfa lai, mae Jo a'i thîm wedi arallgyfeirio i weithgynhyrchu sgrybs nefi i'r GIG trwy gadwyn gyflenwi Llywodraeth Cymru. Yn ogystal mae'r tîm wedi lansio'u hymgyrch codi arian SGRYBS I GYMRU eu hunain sy'n cwrdd â chost defnyddiau i staff gwirfoddol a'r gymuned leol wneud sgrybs sy'n cael eu rhoi i gartrefi gofal a gweithwyr rheng flaen eraill yn rhad ac am ddim.

**Anna and Tom Burke, Animated Technologies**

Wedi'i leoli ar Ynys Môn, mae'r busnes hwn yn canolbwyntio ar arloesedd yn y maes digidol, gan gynhyrchu fideos egluro animeiddiedig sy'n helpu i farchnata cynhyrchion a gwasanaethau i'w cleientiaid.

Yn gweithio o gartref ac yn addysgu dau fab ifanc gartref bellach, roedd ar y tîm gŵr a gwraig eisiau gwneud defnydd da o'u sgiliau wrth i gymunedau ddod at ei gilydd i fynd i'r afael â choronafeirws.

Mae Animated Technologies bellach yn cynnig animeiddiadau cyfryngau cymdeithasol am ddim i unrhyw gyrff swyddogol, sefydliadau iechyd y cyhoedd neu elusennau sydd ag angen cipio sylw'r cyhoedd neu hyrwyddo achos.


Mae cynnig rhai gwasanaethau am ddim yn fodd pwysig o helpu i gael y negeseuon iawn allan i'r cyhoedd, ar adeg pan na fu gwybodaeth gywir, amserol erioed yn bwysicach.

# HELPU BUSNESAU I AILAGOR CYMRU

### Busnes Cymru yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar y rheol 2 fetr

Yn unigryw o ran gwledydd y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfwriaethu ar gyfer y ‘rheol 2 fetr’, yn mynnu bod gweithleoedd yng Nghymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cadw pellter cymdeithasol yn y gweithle. Mae i hyn ganlyniadau ymarferol yn gymaint â bod gweithleoedd nad ydynt yn cydymffurfio yn agored i ddirwyon ac o bosibl eu cau. Ar hyn o bryd mae’r rhan fwyaf o fusnesau ar gau ac fel y cyfryw nid ydynt wedi gorfod ystyried y rheol 2 fetr yn ymarferol. Wrth inni symud i ailagor Cymru bydd hyn yn newid wrth i’r rheol ddod yn un arwyddocaol i bob busnes.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â’r rheol ac i warchod diogelwch y cyhoedd, **dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ar y rheol 2 fetr trwy Busnes Cymru gan roi cyngor ymarferol a phenodol i fusnesau ar sut y gallant addasu eu model busnes i wneud cadw pellter cymdeithasol yn y gweithle yn realiti. Dylid ei ategu gydag ymgyrch wybodaeth sydd â’i hwyneb at fusnesau i sicrhau’r ymwybyddiaeth fwyaf bosibl.** Gallai hyn gynnwys ar faterion megis Adnoddau Dynol arfer gorau, sut i gylchdroi aelodau staff yn y gweithle a gweithio o bell.




**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor i fusnesau ar sut y gallant addasu i wneud cadw pellter cymdeithasol yn y gweithle yn realiti**

### Helpu’r rheini gydag eiddo heriol i addasu i gadw pellter cymdeithasol

Tra bydd llawer o fusnesau’n gallu cyflwyno arferion cadw pellter cymdeithasol heb ormod o anhawster, bydd rhai busnesau nad ydynt yn gallu addasu eu hadeiladau neu eu model busnes i weithredu trwy gadw pellter cymdeithasol heb gymorth.

**Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Cronfa Grant Cadw Pellter Cymdeithasol a fyddai’n targedu’r busnesau hynny sy’n ei chael hi’n fwyaf anodd gwneud addasiadau i’w heiddo neu seilwaith i ganiatáu iddynt ailagor gyda modelau cadw pellter cymdeithasol priodol.**

**Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa gymorth pellach allai fod ei angen ar gyfer busnesau, megis bwytai, a allai gael eu heffeithio’n sylweddol gan amharodrwydd cwsmeriaid i ddefnyddio’r gwasanaethau hyn oherwydd pryderon ynghylch cadw pellter cymdeithasol.**



Gallai **Cronfa Grant Cadw Pellter Cymdeithasol** dargedu busnesau sy'n ei chael hi'n anodd gwneud **addasiadau i'w heiddo neu eu seilwaith** er mwyn caniatáu iddynt ailagor gyda **modelau cadw pellter cymdeithasol priodol**

### Cynllun Gaeafu Twristiaeth

Twristiaeth yw'r rhan o'r economi sydd wedi'i heffeithio fwyaf, ac mae'n debygol o barhau i gael ei heffeithio gan yr argyfwng. Mae'r tymor twristiaid eisoes wedi'i fyrhau, ac mae'n debygol o barhau i fod felly, ac mae'n anodd dweud ar hyn o bryd beth fydd y galw pan fydd y tymor yn agor o'r diwedd. Mae pryder gwirioneddol o fewn y sector ynghylch pa un a fydd tymor hyfyw o gwbl yn 2020 a pha un a fydd cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu hyfywedd unrhyw dymor eleni. Yn sicr un bydd gan fusnesau lai o amser i gyflenwi'r arian i sicrhau eu hyfywedd i mewn i dymor 2021 ac mae amseriad yr achosion o COVID19 wedi cael effaith hefyd ar y gweithlu tymhorol sydd ar gael.

**Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Cynllun Gaeafu Twristiaeth sy'n sicrhau bod busnesau'n gallu gwneud y gorau o dymor 2020 sydd ar ôl, ble mae hynny'n bosibl, ond eu bod yn gallu goroesi tan dymor 2021.** Gallai hyn fod yn estyniad o Gronfa Covid-19 presennol Banc Datblygu Cymru ar gyfer busnesau twristiaeth gyda chyfraddau llog isel, tymor penodol a gwyliau ad-dalu tan Mawrth 2021.

**Yn yr un modd dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r ymgyrch *Hwyl Fawr...Am y tro* sy'n anelu at frandio Cymru fel lle diogel, cyfrifol a chydnerth i ymweld ag ef ar gyfer y dyfodol.** Byddai hyn yn gofyn am gydweithrediad agos â busnesau twristiaeth i amlygu arferion cadw pellter cymdeithasol a diogelwch ymwelwyr.




Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r ymgyrch ***Hwyl Fawr... Am y tro*** sy'n anelu at frandio Cymru fel lle **diogel, cyfrifol a chydnerth** i ymweld ag ef ar gyfer y dyfodol

### Ailffocysu cyllid ar gyfer adfywio canol trefi

Mae ein trefi yn rhan hollbwysig o fywyd pob dydd yng Nghymru. Yn awr, yn fwy nag erioed, mae ein cymuned leol wedi dod yn anhepgor i'n lles cymdeithasol ac economaidd. Mae llawer o fusnesau canol trefi megis cigyddion, pobwyr a siopau groser wedi addasu eu busnesau i helpu pobl fregus neu bobl a warchodir i gael eu hanfodion wedi'u danfon at eu drws. Trefi yw ble rydym yn cael at wasanaethau cyhoeddus hefyd, o feddygfeydd i lyfrgelloedd neu fusnesau'r economi sylfaenol megis gofal plant. Mae busnesau'n rhan allweddol o'r hyn sy'n gyrru tref yn yr amseroedd da a'r gwael.



**Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i rhaglen Trawsnewid Trefi £90m i helpu i ailsiapio ein trefi ar gyfer yr adferiad**

Wrth inni ymadael â'r cyfyngiadau symud ac wrth i'r cyfyngiadau eraill lacio, bydd angen i'n trefi chwarae rôl wahanol i'r rhai y maent wedi'u cyflawni yn y gorffennol. Tra cynt bod cynydd yn nifer y siopwyr yn arwydd o stryd fawr iach, bydd angen yn awr i drefi fod yn gallach a mwy cydlynol i gefnogi eu cymuned ehangach. Fe wnaeth ein gwaith ar *Dyfodol Trefi yng Nghymru* amlygu'r rôl hanfodol bwysig y mae BBaChau yn ei chwarae fel rhannau wedi'u sefydlu o'r economi leol. Mae'n hanfodol fod mentrau megis yr Ardaloedd Gwella Busnes (BIDs) yn derbyn digon o adnoddau i arwain y broses hon.

**Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'i rhaglen Trawsnewid Trefi £90m i helpu i ailsiapio ein trefi ar gyfer yr adferiad.** Dylai hyn olygu helpu ein trefi i addasu i reolau cadw pellter cymdeithasol, diogelu Ardaloedd Gwella Busnes sydd wedi'u sefydlu'n barod a helpu trefi i greu gweledigaeth o'u dyfodol yn y cyfnod adferiad.

### Ymgyrch seiberddiogelwch i gadw busnesau'n ddiogel ar-lein

Gyda llawer o fusnesau'n symud i weithio o bell gyda fawr ddim rhybudd, mae risg seiberdroseddu a bygythiadau i'w seiberddiogelwch wedi cynyddu'n gynt gynt. A derbyn bod gweithio o bell a gweithio gartref yn debygol o aros wrth i gadw pellter cymdeithasol aros yn ei le, mae hi'n bwysig fod y mater hwn yn cael sylw ar frys.

Mae'r heddlu wedi gorfod delio â llawer o bwysau yn y cyfnod ansicr hwn, gyda ffocws hefyd ar blismona cymunedol a chanllawiau cymaint ag ar orfodi. Bydd y rôl yma'n dal i fod yn hanfodol wrth inni symud oddi wrth gyfyngiadau symud llawn, ac rydym yn credu y bydd ymgysylltu â busnes yn hanfodol, ac yn faes ble gall Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ychwanegu gwerth gwirioneddol a helpu gyda'r cyfnod trawsnewid.

**Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu arwain ymgyrch ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch a fyddai'n helpu busnesau sydd wedi trawsnewid tuag at weithio ar-lein.** Byddai hyn yn darparu mynedfa dda hefyd at drafodaeth ar faterion rheoleiddiol ehangach a deall y problemau i fusnes yn y trawsnewid i gyfundrefn economaidd a rheoleiddiol wahanol.




**Dylai CHTh arwain ymgyrch ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch a fyddai'n helpu busnesau sydd wedi trawsnewid tuag at weithio ar-lein**

### Helpu BBaChau gyda chanllawiau Adnoddau Dynol dychwelyd i waith

Bydd llawer yn edrych ymlaen at ddychwelyd i fywyd gwaith ar ôl codi'r cyfyngiadau symud. Serch hynny, ni ddylem ddiystyru'r sioc gymdeithasol enfawr y mae'r cyfyngiadau symud wedi'i chael ar bobl, yn cynnwys yn nhermau arferion cyflogi. Mae BBaChau yn wynebu heriau yn y maes hwn yn aml gan nad oes ganddynt y capasiti i fod ag adran Adnoddau Dynol arbenigol.

Mae hi'n hanfodol bwysig fod cyflogwyr yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i ailsefydlu staff ym myd gwaith, yn yr hyn a all fod yn amgylchiadau eithafol o wahanol. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o sut y dylai cyflogwyr a gweithwyr ill dau edrych ar ddisgwyliadau ynglŷn ag iechyd a diogelwch wrth addasu i fywyd gwaith ar ôl codi'r cyfyngiadau symud a thra fo'r coronafeirws yn dal yn broblem sy'n ein hwynebu i gyd. Dylai gweithwyr deimlo'n ddiogel a dylai cyflogwyr ddeall sut i sicrhau hyn orau. Bydd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth dda o'r arfer gorau gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

**Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth a rheoli, gan weithio efallai gyda chyrff megis Sefydliad Siartredig Datblygu Proffesiynol, i helpu BBaChau i ddeall y disgwyliadau ohonynt mewn ffordd glir, a darparu cefnogaeth i weithwyr i drawsnewid yn ôl i fywyd gwaith yn ystod y pandemig coronafeirws.**



**Rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth a rheoli i helpu BBaChau i ddeall y disgwyliadau ohonynt mewn ffordd glir, a darparu cefnogaeth i weithwyr i drawsnewid yn ôl i fywyd gwaith yn ystod y pandemig coronafeirws**

### Mynd i'r Afael â Thaliadau Hwyr

Mae taliadau hwyr wedi bod yn broblem i sefydlogrwydd ariannol BBaChau ers tro byd, ac rydym yn bryderus y gallai'r argyfwng Coronafeirws waethygu'r sefyllfa, gyda llawer o daliadau yn hwyr o ganlyniad i'r argyfwng pan fo BBaChau ar eu mwyaf bregus. Rydym yn ymwybodol o achosion o arfer da, megis Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn symud eu taliadau o daliadau misol i daliadau wythnosol, a byddem yn dymuno gweld arfer gorau'n cael ei rannu, ac i hyn gael ei weld fel mater ar gyfer cyfrifoldeb corfforaethol.

**Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo'r sector cyhoeddus a chyrff angori i sicrhau bod telerau talu prydlon yn arfer safonol. Dylai hyn ffurfio rhan o'r sgwrs hefyd ynglŷn â chefnogaeth i gwmnïau mwy, gan ddefnyddio'r contract economaidd.**

# CYLLID AR GYFER AILAGOR CYMRU

### Dylai Ysgrifennydd Gwladol Cymru lacio terfynau benthyca Llywodraeth Cymru

Fel y gwnaeth adroddiad diweddar gan Brifysgol Caerdydd dynnu sylw ato, gallu cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru i fenthyca mwy i ddelio â chodiadau gwario pob dydd neu ar gyfer rhaglenni buddsoddi tymor hir. Mae heriau economaidd sylweddol ac anghymesur yn wynebu Cymru yn barod, ac mae ein proffil demograffig yn golygu y bydd her iechyd yr cyhoedd o Covid19 yr un modd yn uwch nag mewn mannau eraill.

Gyda datganoli cyllidol bellach yn realiti, **dylai terfynau ar bwerau benthyca gael eu llacio i ganiatáu i Lywodraeth Cymru reoli ei chyllideb yn well mewn ymateb i'r argyfwng.** Ar ben hynny, yn y tymor hir gallai pecyn ysgogiad cyllidol i roi hwb i dwf ac adferiad economaidd yng Nghymru gael ei ystyried gan ddefnyddio gallu benthyca cyfalaf ychwanegol.

### Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu eglurder ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Mae sefydliadau megis Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru wedi bod yn rhaff achub hollbwysig i lawer o fusnesau yng Nghymru wrth iddynt ymateb i'r argyfwng Coronafeirws. Yn awr yn fwy nag erioed, roedd ar Gymru angen ecosystem cymorth busnes effeithiol ac mae'r ddau wedi profi eu gwerth. Serch hynny, mae'u cyllid yn y dyfodol yn ansicr y tu hwnt i'n hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ar ddiwedd eleni ac mae'r argyfwng presennol wedi effeithio ymhellach ar sgwrs sydd gwaetha'r modd wedi'i dal yn ôl yn barod ynghylch dyfodol y cyllid sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn.

Bydd BBaChau yn parhau i wynebu heriau oddi wrth yr argyfwng Coronafeirws am flynyddoedd lawer i ddod. O ystyried hyn, **dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddarparu cadarnhad a datganiad clir na fydd Cymru'n derbyn dim llai o gyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig.**



**Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddarparu cadarnhad a datganiad clir na fydd Cymru'n derbyn dim llai o gyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig**

[1] https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0005/2146478/COVID19_Welsh_Budget_FINAL.pdf

# AILAGOR CYMRU

Mae Cymru'n wynebu llawer o heriau wrth inni ymorol am ddod allan o'r cyfyngiadau symud a'r argyfwng uniongyrchol a achoswyd gan y coronafeirws. Er gwaethaf hyn, mae'n eglur oddi wrth ein dinasyddion a'n busnesau ein bod yn wlad sy'n rhoi gwerth ar gymuned, yn gofalu am ein gilydd ac yn anwylo ein busnesau lleol. Mae busnesau llai Cymru wedi dangos eu pwysigrwydd i gymunedau lleol a byddant yn parhau i wneud hynny a byddant heb amheuaeth yn profi eu bod wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i lywio Cymru trwy'r amser anodd iawn hwn pan fyddwn yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwn.

Mae BBaChau Cymru yn eu cymunedau, ar gyfer eu cymunedau. Yn y papur hwn rydym wedi ceisio cynnig rhai awgrymiadau i'n helpu i ddychwelyd i'n bywyd arferol mewn modd diogel, â chymorth ac wedi archwilio sut y gallai BBaChau chwarae rhan yn hyn. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos â llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig wrth wneud hyn yn realiti.

FSB Wales
1 Cleeve House, Lambourne Crescent
Caerdydd, CF14 5GP
T/Ff: 02920 747406
M/S: 07917 628977
www.fsb.org.uk/wales
Twitter: @FSB_Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon